

## Canolfan Ffilm Cymru: Agor Byd o Ffilm

*“Mae hwn yn gyfnod cyffrous i gynulleidfaedd ffilmiau ar draws y DU. Mae’n bleser gan Chapter fod yn Gorff Arweiniol Canolfan Ffilm (FHLO) dros Gymru ac i fod yn rhan o fenter cwbl arloesol BFI. Gan weithio gyda phobl ledled Cymru a’r DU yn ehangach, fe fydd **Canolfan Ffilm Cymru** yn gweithio i sicrhau bod rhaglen 4 blynedd sydd yn berthnasol, arloesol a heriol yn cael ei chyflenwi ar draws Cymru gyfan. Fe fydd cefnogaeth sylweddol BFI ac aelodau ein Canolfan i’r prosiect yma yn sicrhau datblygiad mynediad ehangach i gynulleidfaedd i ymgysylltu gydag amrediad eang o ffilmiau trwy ddigwyddiadau, dangosiadau, cyfleoedd addysgol a chydweithrediad gydag ymarferwyr eraill a Chyrff Arweiniol Canolfannau Ffilm rhanbarthol.”*

*Sally Griffith,*

*Cyfarwyddwraig Ffilm a Sinema yng Chapter / Cyfarwyddwraig Canolfan Ffilm Cymru*

### Beth ydy Canolfan Ffilm Cymru?

Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFFC) yn un o naw canolfan DU gyfan a gyllidir gan y Sefydldd Ffilm Prydeinig (BFI) i ffurfio’r Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN). Penodwyd Chapter yn Gorff Arweiniol Canolfan Ffilm dros Gymru gyda’r genhadaeth o gyflwyno profiadau ffilm newydd i gynulleidfaedd ar draws y genedl a thu hwnt.

Mewn partneriaeth gyda’n sinemau, canolfannau celfyddydol, lleoliadau cymunedol, cymdeithasau, gwyliau ac ymarferwyr ffilm ehangach, nod Canolfan Ffilm Cymru ydy dathlu a chefnogi’r sector ffilm diwylliannol bywiog yma yng Nghymru, gan gydweithio i ehangu a chynyddu dewis i gynulleidfaedd, waeth ble maen nhw’n byw.

Rydym wedi derbyn £200,000 y flwyddyn am bedair blynedd i fuddsoddi mewn prosiectau arddangos sy’n adeiladu ac yn cynnal cysylltiadau gydag addysg, archif, doniau a digwyddiadau arbennig sy’n cael eu llywio gan anghenion y gynulleidfa ac sy’n dathlu ein treftadaeth ddiwylliannol ehangach.

### Ein hamcanion

- Datblygu rhaglenni ffilmiau arloesol, anturus a sylweddol ddiwylliannol ledled Cymru,
- Dathlu’r iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth Cymru gan gynnig platfform i dalent Cymreig,
- Cynyddu mynediad i ffilmiau arbenigol trwy ddigwyddiadau, dangosiadau a chyfleoedd addysgol,
- Cefnogi rhwydwaith o bartneriaethau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol a rhannu arfer gorau gan arwain at sector ffilm mwy cynaliadwy,
- Rhannu syniadau am raglenni, cyfnewid mynediad, trafodaeth a gwybodaeth trwy hyfforddiant a mentora,
- Ymchwilio, deall a datblygu ein cynulleidfaedd er mwyn adeiladu a chynnal diddordeb mewn ffilmiau annibynnol,
- Datblygu dulliau arloesol i dechnoleg digidol i hyrwyddo cysylltedd,
- Nodi a chefnogi lleoliadau gwledig mewn ardaloedd sydd wedi’u tan wasanaethu/mewn tloidi diwylliannol lle mae cynulleidfaedd yn anodd i’w cyrraedd.

### Aelodaeth

Mae aelodaeth Canolfan Ffilm Cymru wrth galon y prosiect yma, po fwyaf o aelodau a phartneriaethau y byddwn yn eu hadeiladu, y mwyaf fydd yr effaith y gallwn ei greu i gynulleidfaedd a’n sector arddangos yng Nghymru.

**Mae Canolfan Ffilm Cymru yn croesawu aelodau newydd trwy gydol y flwyddyn. Gall cyrff aelodau gynnwys:**

- Sinemau annibynnol
- Lleoliadau celfyddydol cymysg
- Cymdeithasau ffilm
- Darparwyr sinema cymunedol
- Gwyliau ffilm
- Archifau ffilm
- Sinemau masnachol
- Addysgwyr ffilm
- Darlledwyr
- Cyrff ffilm/celfyddydau ehangach sydd â diddordeb mewn gweithio gyda ffilm

## Meini Prawf Aelodaeth

I ddod yn aelod o Ganolfan Ffilm Cymru fe fydd angen i'ch corff rannu amcanion uchod Canolfan Ffilm Cymru yn ogystal ag amcanion ehangach Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI (FAN):

- **Cyrhaeddiad** – cynyddu ac ehangu cynulleidfaoedd ar gyfer ffilmiau Prydeinig annibynnol a sinema byd,
- **Ehangder** – ehangu dewis ffilmiau yn sylweddol i gynulleidfaoedd ar draws y DU,
- **Dyfnlder** – gwella cyfleoedd i gynulleidfaoedd ymgysylltu gyda a dysgu am ffilmiau gan arwain at well dealltwriaeth ymysg y gynulleidfa,
- **Galluedd** – gwell arbenigedd mewn meysydd allweddol trwy hyfforddiant a mentora, sy'n cefnogi amcanion y rhwydwaith,
- **Partneriaethau** – Rhwydwaith gydweithredol sy'n cydweithio yn effeithiol i gyflenwi rhaglen gyffrous o ffilmiau mewn ystod o leoliadau a phlatfformau,
- **Dylanwad** – codi buddsoddiadau ychwanegol ar gyfer gweithgaredd arddangos ffilmiau ar draws y rhwydwaith,
- **Amrywiaeth** – darparu ar gyfer cynulleidfaoedd sydd wedi'u tan wasanaethu a gwneud amrywiaeth o gynnwys yn hygyrch.

## Ffioedd

**Mae aelodaeth Chanolfan Ffilm Cymru am ddim.** I ymuno, llanwch ein ffurflen gais.

## Manteision i Aelodau

### Cynulleidfa

- Mynediad i Rhwydwaith a chronfeydd datblygu cynulleidfaoedd Canolfan Ffilm Cymru (*gall yr holl aelodau wneud cais am fwrseriaethau hyfforddi a chymorth r gyfer ffilmiau Cymreig a phrosiectau archif ond mae meini prawf aelodau yn berthnasol i'r Gronfa Datblygu Cynulleidfa. Gweler ein canllawiau am ragor o fanylion,*
- Cymorth marchnata trwy wefan Canolfan Ffilm Cymru a mentrau DU cyfan, cyfryngau cymdeithasol a manau eraill gyda'r potensial i godi ymwybyddiaeth o'ch corff,
- Y potensial i gymryd rhan mewn mentrau ymchwil cynulleidfa gyda'r nod o ddeall ymddygiad cynulleidfaoedd yn well a gwella casglu data unigol
- Y cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau arbennig o ansawdd uchel a thymhorau ffilmiau mawr DU gyfan
- Y cyfle i Gronni adnoddau rhaglenni a rhannu arfer da

### Rhwydwaith

- Ysial i elwa oddi wrth weithgaredd codi arian y Ganolfan
- Cyngor y diwydiant a chymorth partneriaeth gan dîm ac aelodau Canolfan Ffilm Cymru
- Mynediad i gyfarfodydd y Ganolfan lle mae potensial i gydweithredu trwy raglennu diwylliannol, datblygu prosiectau newydd a thrafod datblygiadau newydd oddi mewn i'r sector
- Mynediad i fwrseriaethau gyda chyfleoedd am hyfforddiant a mentora wedi eu teilwra
- Cynnydd mewn cysylltedd trwy gysylltiadau i aelodau ehangach y Ganolfan, ymarferwqyr ffilm a chyrrff DU gyfan (Cinema for All, BFI, Independent Cinema Office)
- Archwilio'r cysylltiadau potensial gyda thechnolegau digidol trwy CAN ac eiriolaeth ar gyfer anghenion y sector,
- Cyfleoedd i gyfathrebu gyda lleoliadau annibynnol sefydliedig yn y DU, yn cynnig y potensial i gynyddu mynediadau,
- Cynrychiolaeth ac eiriolaeth ar lefel cenedlaethol trwy Ganolfan Ffilm Cymru mewn cyfarfodydd a digwyddiadau Canolfan DU ac yn rhyngwladol trwy gyrff fel Europa Cinema,
- Mynediad i ddiweddariadau rheolaidd gyda gwybodaeth am raglenni sy'n dod a newyddion y diwydiant.

## Cyllid sydd ar gael

### *Datblygu Cynulleidfa*

Fe fydd cyllid ar gael i brosiectau arddangos gyda chyrhaeddiad cenedlaethol, rhanbarthol neu gymunedol sy'n cefnogi rhaglennu anturus, fel dangosiadau wedi'u targedu at grwpiau anodd i'w cyrraedd, cynulleidfaoedd ieuencid neu deuluoedd, archif, dangosiadau pop-yp, dysgu gydol oes neu ar draws y celfyddydau.

### *Datblygu rhwydwaith*

#### *Hyfforddiant a Sqiliau*

Mae bwrseriaethau hyd at £500 ar gael i alluogi aelodau i fynychu gweithdai hyfforddi, gwyliau, cynadleddau a chyfleoedd rhwydweithio.

### *Marchnata*

Bydd FHW yn gweithio gydag aelodau i brofi dulliau hyblyg o raglennu a datblygu cynulleidfaoedd

### *Ymchwil*

Prosiectau ymchwil Cymru gyfan gyda'r nod o archwilio a deall tirwedd cyfredol ffilm yng Nghymru a'r cynulleidfaoedd mewn ardaloedd gwledig a threfol, yn y DU a'r farchnad ehangach. Fe fydd ymchwil yn cefnogi arddangoswyr lleol a mentrau partneriaid DU gyfan lle mae hynny'n bosibl.

## Grŵp Cyngori'r Ganolfan

Rydym wedi ffurfio Grŵp Cyngori Strategol y Ganolfan a fydd yn arwain ac yn monitro strategaeth o amgylch pob maes o ddatblygiad y ganolfan. Mae'r aelodau wedi eu dethol yn seiliedig ar eu hamrywiol arbenigedd:

- **Sally Griffith**, Cyfarwyddwraig Ffilm a Sinema yng Chapter/Cyfarwyddwraig Canolfan Ffilm Cymru,
- **Jim Barratt**, Bigger Picture Research
- **Berwyn Rowlands**, The Festivals Company, Gŵyl Ffilm Gwobrau Iris
- **Dr. Katie Featherstone**, Prifysgol Caerdydd a SciSCREEN
- **Steve Blandford**, Bwrdd Chapter
- **Julia Grime**, Theatr Clwyd
- **Gareth Bailey**, Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth/Abertoir International Horror Festival
- **Tom Barrance**, Addysg Cyfryngau Cymru
- **Dan Thomas**, Ffilm Cymru
- **Angie Dickinson**, Canolfan Gelfyddydau Pontardawe

Caiff is-bwyllgor o 5 o aelodau Grŵp Cyngori'r Ganolfan ei ffurfio hefyd i arwain blaenoriaethau rhwydwaith

## Manylion Cyswllt

**Hana Lewis, Rheolwraig Strategol y Ganolfan**

[hana@filmhubwales.org](mailto:hana@filmhubwales.org)

02920353740

**Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu**

[lisa@filmhubwales.org](mailto:lisa@filmhubwales.org)

02920 311067

Chapter, Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE

[www.canolfanffilmcymru.org](http://www.canolfanffilmcymru.org)